8/2/21

Annwyl riant,

Hoffwn ddiolch o galon i chi am eich cefnogaeth yn ystod yr hanner tymor heriol yma. Yr wyf wedi fy mhlesio yn fawr gydag ymroddiad a dyfalbrhad y disgyblion i ymdopi â chyfnod dryslyd a heriol iawn. Braf yw gweld cymaint yn ymuno yn y sesiynau Google Meet er mwyn gweld eu ffrindiau a thrafod gwaith gyda'r athrawon.
Yr wyf yn hynod o falch o holl staff yr ysgol am eu gofal a'u cefnogaeth ar gyfer pob un plentyn a'u teuluoedd, i sicrhau parhad yn yr addysgu- a hynny wrth gwrs wrth geisio addysgu a chynnal plant a theuluoedd eu hunain adref hefyd. Yr wyf yn mawr obeithio y bydd pawb yn cael cyfle haeddiannol iawn, i orffwys a chael seibiant yn ystod y gwyliau hanner tymor.

Gweithwyr Allweddol:Bydd yr ysgol yn parhau ar agor ar gyfer plant gweithwyr allweddol o'r 22ain o Chwefror ymlaen os nad oes opsiwn arall gan y teulu ar gyfer gwarchod neu weithio adref. Oriau yn parhau o 8.20a.m- 3/3.30 ond dim clwb brecwast na chinio ysgol.

Cyfnod Sylfaen:Dyma'r trefniant ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar ôl hanner tymor yn unol â chanllawiau yr Adran Addysg mewn cyfarfod heddiw:-

21/22 Chwefror- tasgau ar lein ond ni fydd Google Meet

24/2/21 Meithrin/ Derbyn yn yr ysgol – oriau arferol (Giat Cofiwch Dryweryn)
25/2/21 Meithrin/Derbyn a Blwyddyn 1- oriau arferol (Bl 1 Prif Giat ac ar y buarth)
26/2/21 Meithrin/ Derbyn/ Blwyddyn 1+ Blwyddyn 2 – oriau arferol (Bl 1+2 Prif Giat 8.50)

1/3/21 ymlaen- Plant y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol pob dydd (oriau arferol).Bydd Clwb Brecwast ar gael ar gyfer y disgyblion hyn o 8.00 a.m ymlaen(os oes angen) a bydd cinio ysgol yn cael ei ddarparu.
(Gofynnir i rieni ystyried trefniadau gwarchod disgyblion Meithrin megis Meithrinfa/Clwb Ar Ol Ysgol yn ofalus er mwyn lleihau y swigod sydd yn cysylltu gyda'r ysgol).

Plant CA2: Ar gyfer gweddill y disyblion, bydd y ddarpariaeth yn parhau ar lein am y tro o'r 22/2/21 ymlaen. Hoffwn i'r disgyblion ddefnyddio dydd Iau yr wythnos hon ar gyfer cwblhau tasgau a'u gyrru ymlaen i'r athrawon ac felly ni fydd gwaith newydd yn cael ei osod. Mae 12/2/21 yn ddiwrnod hyfforddiant athrawon ac felly ni fydd gwaith yn cael ei osod ar gyfer y disgyblion, ond mae croeso iddynt gwblhau tasgau os yn dymuno neu defnyddio rhaglenni Hwb, Mathletics neu Reading Eggs wrth gwrs.

PWYSIG: Bydd y trefniadau uchod yn ddibynnol ar y sefyllfa yn lleol a bydd modd i'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru newid hyn ar fyr rybudd- byddaf yn cysylltu gyda rhieni yn syth os yw hynny yn digwydd. Yn y cyfamser, gofynnaf yn garedig i chi barhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn ystod y gwyliau fel ein bod yn cadw holl staff a disgyblion yr ysgol yn ddiogel a bod modd i'r ysgol ddywchwelyd i'r drefn arferol yn fuan iawn.

Adroddiad Cryno:Bydd adroddiad byr yn eich cyrraedd ddiwedd yr wythnos a fydd yn rhoi trosolwg o ymdrech a chyflawniad eich plentyn ers y Nadolig- bydd argymhelllion hefyd o gamau nesaf neu dargedau ar gyfer cynnydd pellach eich plentyn. Gobeithio y byddwch yn gwerthfawrogi derbyn adborth o'r fath, er mwyn gallu trafod gyda'ch plentyn a gwerthfawrogi eu hymdrechion. Gobeithir gallu cynnal nosweithiau agored pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Ni fydd athrawon yn ymateb i ddisgyblion na rhieni yn ystod y gwyliau ond gallwch fy ebostio i ar bethanwynjones3@gwynedd.llyw.cymru os allai fod o unrhyw gymorth ar faterion brys.
Diolch yn fawr am eich cyd-weithrediad
Bethan Wyn Jones